# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

OGL © Hawlfraint y Goron

**Cynulleidfa**
Mae'r ddogfen ganllaw hon wedi'i llunio ar gyfer aelodau a swyddogion cynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

**Trosolwg**
Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar y sector cynghorau cymuned a thref a chaiff y newidiadau allweddol eu hegluro yn y canllawiau hyn.

Diben y canllawiau hyn yw helpu cynghorau cymuned a thref i weithredu darpariaethau perthnasol Deddf 2021.

**Camau i'w cymryd**
Rhaid i gynghorau cymuned roi sylw i'r canllawiau hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau fel awdurdodau lleol.

**Deddfwriaeth**
Rhaid i gyngor roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau yn Neddf 2021 o dan y canlynol:

- Rhan 2, Pennod 2, adran 36 (canllawiau ynglŷn ag arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynghorau cymuned cymwys);
- Rhan 3, Pennod 4, adran 48 (3) (gallai canllawiau gwmpasu'r hyn sy'n gyfystyr â chyfle rhesymol i wneud sylwadau, a'r hyn sy'n gyfystyr â chynnal cyfarfod yn effeithiol), a Phennod 5, adran 52(2) (pŵer i roi canllawiau ar adroddiadau blynyddol);
- Rhan 4, adran 67 (7) (y pŵer i roi canllawiau ar gynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned).

Golyga hyn fod yn rhaid i gynghorau ystyried y canllawiau ac, os byddant yn penderfynu gwyro oddi wrthynt, sicrhau bod ganddynt resymau clir a chyfiawnadwy dros wneud hynny.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**
Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

**Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:**
Is-adran Perfformiad a Phartneriaethau Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: LGPartnerships@llyw.cymru
This document is also available in English: Statutory Guidance for Community and Town Councils

## RHAGAIR

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno pecyn o ddiwygiadau i atgyfnerthu ac ymestyn y pwerau sydd ar gael ym maes llywodraeth leol.

Mae'r ddeddfwriaeth yn adeiladu ar gryfderau llywodraeth leol er mwyn galluogi cynghorau i gael mwy o effaith ar ran eu cymunedau. Polisi Llywodraeth Cymru yw creu amgylchedd galluogol ac anogol i gynghorau cymuned a thref ehangu eu gweithgareddau lle y gallent – ac y dylent – chwarae mwy o rôl, a hynny'n seiliedig ar anghenion lleol.

I gyd-fynd â'r dull gweithredu galluogol hwn, mae angen trefniadau llywodraethu cadarn ac mae angen rheoli arian cyhoeddus yn effeithiol. Mae'n bwysig bod cynghorau yn sefydliadau a gaiff eu rhedeg yn broffesiynol ac a gaiff gefnogaeth broffesiynol, a bod cymorth a chanllawiau ar gael iddynt.

Mae'r mesurau newydd sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y sector cynghorau cymuned yn cynnwys y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol sydd ar gael i'r cynghorau hynny sy'n bodloni'r amodau cymhwystra a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Yn ogystal â'r pŵer newydd, gosodir dyletswyddau newydd ar gynghorau cymuned a thref hefyd. Bydd y ddyletswydd i wneud a chyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer yr holl aelodau a staff yn cefnogi ymdrechion i atgyfnerthu gallu'r sector. Bydd y ddyletswydd newydd i lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn rhoi mwy o dryloywder a dealltwriaeth i gymunedau lleol ynglŷn â gwaith eu cyngor. Rwy'n disgwyl gweld cymunedau'n cyfranogi mwy yng nghyfarfodydd cynghorau wrth i aelodau o'r cyhoedd gael cyfleoedd rhesymol i roi eu barn.

Mae darpariaethau eraill i foderneiddio'r rheolau llywodraethu ar gyfer cynghorau yn golygu y gellir danfon papurau cyfarfodydd yn electronig ac y gall cyfarfodydd cynghorau gael eu cynnal o sawl lleoliad.

Bwriedir i'r pecyn hwn o fesurau, a chanllawiau ategol, sicrhau bod gan gynghorau y cryfder a'r cwmpas i weithio er budd pennaf y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Y nod yw eu helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig, o ansawdd da mewn cymunedau ledled Cymru.

**Rebecca Evans AS**
**Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL**

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 6
Diben y darpariaethau ........ 6
Dyddiadau Pwysig ........ 6
1. Pennod 1 – Pŵer cymhwysedd cyffredinol a chynghorau cymuned cymwys ........ 7
Cymhwyso'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol ........ 7
Amodau cymhwystra ........ 8
Arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol ........ 11
Pŵer i fasnachu mewn swyddogaethau arferol ........ 11
Terfynau'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ........ 12
Adolygiad blynyddol o gymhwystra ........ 13
Peidio â bod yn gymwys ........ 14
Beth fydd yn digwydd i gytundebau y mae cyngor cymuned cymwys wedi ymrwymo iddynt os bydd y cyngor hwnnw yn peidio â bod yn gymwys? ........ 14
Cynghorau Cymuned Cyffredin ........ 14
Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Chynghorau Cymuned a Thref ........ 15
Deddf Llywodraeth Leol 2000 – Pŵer Llesiant ........ 16
Effaith arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol ........ 16
Astudiaethau achos ........ 17
2. Pennod 2 – Cyfarfodydd aml-leoliad ........ 18
Beth yw'r gofynion? ........ 18
Beth ddylai'r trefniadau ei ystyried? ........ 19
Y Gymraeg ........ 20
3. Pennod 3 – Cyfranogi mewn cyfarfodydd ........ 21
4. Pennod 4 – Adroddiadau Blynyddol ........ 22
Amseriad adroddiadau blynyddol ........ 22
Cynnwys adroddiadau blynyddol ........ 22
Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ........ 24
Cyhoeddi'r adroddiad blynyddol ........ 25
Dysgu gan eraill wrth baratoi'r adroddiad blynyddol ........ 25
5. Pennod 5 – Cynlluniau Hyfforddi ........ 26
Diben y cynllun hyfforddi ........ 26
Dadansoddi anghenion hyfforddi ........ 26
Cytuno ar y cynllun hyfforddi a'i gyhoeddi ........ 27

Hyfforddiant ar gyfer cyflogeion mwy nag un cyngor cymuned.................................................. 28
Adolygu cynlluniau hyfforddi .................................................................................................. 28
Cyhoeddi ................................................................................................................................ 28
6. Pennod 6: Darpariaethau eraill sy'n effeithio ar gynghorau cymuned a thref..... 29
Hysbysiadau ynglŷn â chyfarfodydd cynghorau cymuned........................................................... 29
Trafodion cyfarfodydd cynghorau cymuned.................................................................................. 29
Deisebau cymunedol.................................................................................................................. 30
Etholiadau ................................................................................................................................ 30
Cyfarfodydd ar safleoedd trwyddedig .......................................................................................... 31

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) ei phasio ar 20 Ionawr 2021. Mae'n darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad.

Mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio ar y sector cynghorau cymuned a thref a chaiff y newidiadau allweddol eu hegluro yn y canllawiau hyn. Mae Deddf 2021 yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol cymhwysol, gan gynnwys cynghorau cymuned cymwys. Mae'r canllawiau hyn yn helpu cynghorau cymuned a thref i ystyried y gofynion y mae angen iddynt eu bodloni os hoffent ddod yn gynghorau cymuned cymwys.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth i helpu pob cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau newydd mewn perthynas â'r gofynion canlynol:

- Ymuno â chyfarfodydd o sawl lleoliad;
- Rhoi cyfle i'r cyhoedd gyfranogi yng nghyfarfodydd cyhoeddus cynghorau;
- Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol;
- Paratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi i gefnogi hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff cynghorau;
- Darpariaethau eraill sy'n effeithio ar gynghorau cymuned a thref.

**Diben y darpariaethau**
Mae'r sector a'r cyhoedd o blaid gwneud gwaith cynghorau cymuned yn fwy gweladwy. Rydym am i gymunedau gymryd diddordeb yn yr hyn y mae eu cynghorau yn ei wneud a chael gafael yn hawdd ar wybodaeth am waith y cyngor. Cafodd y gofynion o ran adroddiadau blynyddol, cynlluniau hyfforddi, cyfarfodydd aml-leoliad a chyfranogiad cyhoeddus eu cynllunio i gefnogi'r bwriad hwn.

Mae cefnogaeth hefyd i rymuso cynghorau cymuned er mwyn eu galluogi i fod yn fwy arloesol ac uchelgeisiol wrth weithio ar ran eu cymuned. O dan y darpariaethau, pan fydd cyngor yn bodloni meini prawf penodol a nodir yn y ddeddfwriaeth, gall basio penderfyniad ei fod yn ‘gyngor cymuned cymwys’ sy'n gallu arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol.

**Dyddiadau Pwysig**
Daeth darpariaethau yn Neddf 2021 i rym ar ddyddiadau gwahanol. Rhestrir y dyddiadau y daeth y darpariaethau i rym isod:

- Dyletswydd ar gynghorau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol – 1 Ebrill 2022
- Cymhwystra i allu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref – 5 Mai 2022
- Dyletswydd i roi cyfle i'r cyhoedd gyfranogi yng nghyfarfodydd cynghorau – 5 Mai 2022
- Dyletswydd i ystyried hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff cynghorau – 5 Mai 2022, gyda'r cynllun hyfforddi cyntaf i'w gyhoeddi erbyn 5 Tachwedd 2022.

# 1. Pennod 1 – Pŵer cymhwysedd cyffredinol a chynghorau cymuned cymwys

**Cymhwyso'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

1.1. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau cymhwysol "wneud unrhyw beth y gall unigolyn ei wneud yn gyffredinol". Mae'n bŵer i'w ddefnyddio fel man cychwyn sy'n golygu nad oes angen i awdurdod cymhwysol ddibynnu ar bwerau penodol mewn deddfwriaeth i wneud rhywbeth, ar yr amod nad yw'r hyn a fwriedir wedi'i wahardd fel arall. Mae'r defnydd a wneir o'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion cyfreithiol a ddisgrifir yn y canllawiau hyn. Os oes cyfyngiadau ar ddefnyddio pŵer penodol presennol, bydd y cyfyngiadau hynny'n gymwys i'r defnydd a wneir o'r pŵer cymhwysedd cyffredinol hefyd.

1.2. 'Cyngor cymuned cymwys' yw awdurdod cymhwysol fel y'i diffinnir yn adran 24(1) o Ddeddf 2021.

1.3. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn galluogi cynghorau cymuned cymwys i weithredu er budd pennaf eu cymunedau, creu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian. Bydd cynghorau cymuned cymwys hefyd yn gallu codi arian drwy godi ffi am wasanaethau disgresiynol a masnachu at ddibenion masnachol ac yn eu swyddogaethau arferol.

1.4. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhoi'r un pwerau gweithredu i gynghorau cymuned cymwys ag sydd gan unigolyn yn gyffredinol, gan eu galluogi i wneud mathau tebyg o bethau. Er enghraifft, *ni allai* unigolyn osod trethi ar bobl eraill – felly *ni allai* cyngor cymuned ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i godi trethi. Fodd bynnag, *gallai* unigolyn redeg siop gymunedol neu swyddfa bost felly *gallai* cyngor cymuned sefydlu siop hefyd.

1.5. Mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn caniatáu i gyngor cymuned cymwys ymgymryd â gweithgarwch masnachol os yw'n sefydlu cwmni neu gymdeithas gydweithredol at y diben hwn. Caiff hyn ei egluro'n fanylach yn yr adran ar arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol.

1.6. Ymhlith y mathau o weithgareddau y gallai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol gael ei ddefnyddio ar eu cyfer mae'r canlynol:

- Benthyca neu fuddsoddi arian e.e. i gefnogi gweithgareddau pentref neu dref, neu i gefnogi a sefydlu busnesau lleol;
- Darparu cymorth a gweithgareddau disgresiynol e.e. cymryd cyfleusterau ieuenctid drosodd neu gynnig cymorth wedi'i drefnu (e.e. cynorthwywyr darllen/rhifedd i ysgolion);
- Cynhyrchu a gwerthu ynni gwyrdd;
- Adeiladu a darparu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol.

1.7. Fodd bynnag, os yw awdurdod arall (h.y. y prif awdurdod) o dan dyletswydd statudol, yna mae dyletswydd arno o hyd i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw (e.e.

gwasanaethau llyfrgell, addysg, casglu gwastraff). Felly, er bod y ddyletswydd yn perthyn i'r prif gyngor o hyd, gall cynghorau cymuned cymwys helpu.

**Amodau cymhwystra**

1.8. Mae Deddf 2021 yn nodi'r amodau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned eu bodloni i ddod yn '*gynghorau cymuned cymwys*' ac arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Dim ond cynghorau sy'n bodloni'r amodau cymhwystra a all ddefnyddio'r pŵer cyffredinol hwn. Caiff y tri amod eu nodi yn Neddf 2021, adran 30 (2)-(4) ac fe'u hamlinellir isod:

- Datganwyd bod o leiaf ddau draean o gyfanswm aelodau'r cyngor wedi eu hethol (gan gynnwys rhai a gafodd eu hethol yn ddiwrthwynebiad), boed mewn etholiad cyffredin neu mewn is-etholiad (adran 30(2)).
- Mae clerc y cyngor yn dal cymhwyster neu dystysgrif o fath a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau (adran 30(3)).
- Mae dwy farn fwyaf diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon y cyngor yn ddiamod. Rhaid bod y farn ddiweddaraf wedi dod i law yn ystod y 12 mis blaenorol (adran 30(4)).

1.9. Gyda'i gilydd, mae'r tri amod hyn yn helpu i ddangos bod cyngor cymuned yn cynrychioli barn ei etholwyr, bod gan y cyngor hanes diweddar o drefniadau llywodraethu cadarn a bod gan glerc y cyngor yr wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth graidd i helpu'r cyngor cymuned i arfer y pŵer cyffredinol newydd. Mae hyn yn rhoi lefel o hyder yng ngallu cyngor i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn briodol.

1.10. Lle bo'r cyngor cymuned neu dref yn dymuno arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, rhaid iddo basio penderfyniad ei fod yn gymwys drwy benderfyniad ffurfiol. Rhaid i gyngor cymuned cymwys fodloni'r amodau cymhwystra a nodir uchod a phasio penderfyniad yn ystod unrhyw gyfarfod llawn yn cadarnhau ei fod yn bodloni'r amodau. Yna, mae'n pasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys a all arfer y pŵer cyffredinol hwn. Yn unol â pharagraff 26ZA o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ('Deddf 1972 ') – fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf 2021, *rhaid i ganlyniad y penderfyniad i ddod yn gyngor cymuned cymwys gael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor o fewn saith niwrnod gwaith i basio'r penderfyniad.*

1.11. Caiff yr amodau hyn eu hadolygu'n gyson ac mae modd, o dan adran 35 o Ddeddf 2021, i Weinidogion Cymru ddiwygio'r amodau. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r amodau hyn yn cael eu gwneud drwy reoliadau a wneid gan Weinidogion Cymru a byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal arnynt cyn hynny.

**Y Tri Amod**

*Amod 1: Cyfran yr aelodau etholedig*

1.12. Mae'r amod hwn yn adlewyrchu'r egwyddor y dylai cyngor sy'n arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol adlewyrchu barn ddemocrataidd y gymuned. Y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau lleol yw o fewn fframwaith democrataidd o atebolrwydd lleol. Dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau lleol allu lleisio eu

barn gymaint â phosibl ar y ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu rheoli a'u darparu.

1.13. Yr amod yw bod o leiaf ddau draean o aelodau wedi eu hethol. Mae hyn yn cynnwys y rhai a gafodd eu hethol mewn is-etholiadau a'r rhai a gafodd eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i isafswm nifer y cynghorwyr etholedig fod yn rhif cyfan sy'n hafal i ddau draean o gynghorwyr, neu'n fwy na hynny. Er enghraifft, rhaid i gyngor â naw cynghorydd gael o leiaf chwe chynghorydd etholedig.

1.14. Os nad yw hwn yn rhif cyfan, rhaid iddo gael ei dalgrynnu i fyny. Mae'r tabl isod yn cadarnhau nifer y cynghorwyr etholedig sydd eu hangen er mwyn bodloni'r amod hwn.

| **Seddi'r Cyngor** | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dau draean** | 4 | 4 | 5 | 6 | 6 | 7 | 8 | 8 | 9 | 10 | 10 | 11 | 12 | 12 | 13 | 14 |

### *Amod 2: Cymhwyster clerc perthnasol*

1.15. Mae'r amod hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd y ffaith bod angen i unrhyw gyngor sy'n arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol gael digon o gymorth i wneud hynny.

1.16. Cydnabyddir yn eang o fewn y sector bod y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA) yn rhoi gwybodaeth eang am yr holl agweddau ar waith, rolau a chyfrifoldebau clerc cyngor cymuned, gan gynnwys y gyfraith, gweithdrefnau'r cyngor, cyllid, cynllunio a chynnwys y gymuned.

1.17. Yn unol â Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021 ('Rheoliadau 2021') a ddaeth i rym ar 5 Mai 2022, rhaid bod clerc y cyngor cymuned wedi cael o leiaf un o'r canlynol ar yr adeg y mae'r cyngor yn pasio penderfyniad ei fod yn bodloni'r meini prawf a'i fod yn gyngor cymuned cymwys, neu cyn hynny:

- Y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCA)
- Y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Llywodraethu Cymunedol
- Y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Ymgysylltu a Llywodraethu Cymunedol
- Y Dystysgrif Addysg Uwch mewn Polisi Lleol.

1.18. Pan fydd y cyngor yn pasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys, byddai'n annigonol datgan bod y clerc wrthi'n gweithio tuag at un o'r cymwysterau uchod; neu'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol. Byddai hefyd yn annigonol dweud bod gan ddirprwy glerc gymhwyster CiLCA. Mae'n ofynnol mai swyddog priodol cydnabyddedig y cyngor sy'n meddu ar y cymhwyster CiLCA.

1.19. Caiff clercod a enillodd unrhyw un o'r cymwysterau sector-benodol uchod cyn mis Mai 2022 eu cynghori i gael hyfforddiant ychwanegol er mwyn cadarnhau eu bod yn deall sut y mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn gweithio. Mae'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn darparu uned ar wahân ar y pŵer. Byddai'n fuddiol i glercod sy'n meddu ar gymhwyster CiLCA ond sydd heb

astudio'r modiwl hwn gwblhau'r modiwl hwn cyn i'r cyngor basio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys.

1.20. Dim ond clercod y cynghorau hynny sydd am basio penderfyniad eu bod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol sy'n gorfod meddu ar gymhwyster. Nid oes gofyniad cyffredinol i glercod cynghorau cymuned neu dref feddu ar gymhwyster, ond caiff clercod eu hannog i feddu ar gymhwyster CiLCA er mwyn cefnogi'r cyngor.

### *Amod 3: Barn archwilio*

1.21. Dylid dilyn egwyddorion tryloywder, proffesiynoldeb ac atebolrwydd cyhoeddus yn holl weithdrefnau ariannol cynghorau cymuned. Dylai glynu wrth gyfundrefn archwilio briodol a llunio datganiad ariannol blynyddol fod yn gonglfeini arferion rheoli ariannol cyngor.

1.22. Er mwyn bodloni'r amod hwn, rhaid bod y cyngor wedi cael dwy farn archwilio ddiamod am ddwy flwyddyn ariannol yn olynol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i'r un ddiweddaraf fod wedi dod i law yn ystod y 12 mis sy'n dod i ben ar y dyddiad y caiff penderfyniad y cyngor cymuned ei basio.

1.23. Ni fydd cynghorau cymuned sydd wedi cael archwiliadau amodol diweddar yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

1.24. Er enghraifft, yng nghyfarfod blynyddol y cyngor cymuned ym mis Mai 2022, byddai'r cyngor fel arfer yn cael cadarnhad o ganlyniad barn archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21. Mae hyn ar yr amod bod y cyngor yn cydweithredu'n llwyr ac yn rhoi'r holl wybodaeth a thystiolaeth berthnasol i'r archwilydd allanol, yn brydlon, er mwyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru allu rhoi barn archwilio.

1.25. Felly, cyhyd â bod barn archwilio ddiamod yn cael ei rhoi ar gyfer blynyddoedd ariannol 2019-20 a 2020-21, byddai'r amod hwn yn cael ei fodloni. Os bydd y naill farn neu'r llall yn amodol, ni ellir bodloni'r amod ac *ni all y cyngor basio penderfyniad* ei fod yn gyngor cymuned cymwys.

1.26. Yn y dyfodol, caiff y trydydd amod ei ystyried yn flynyddol, sy'n golygu y bydd y farn archwilio berthnasol dan sylw yn newid o hyd. Er enghraifft, yn 2023, wrth ystyried yr amod hwn, byddai'n rhaid dibynnu ar farn archwilio o 2020-21 a 2021-22.

### *Newidiadau i'r gyfundrefn archwilio yn y dyfodol*

1.27. Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi y bydd y gyfundrefn archwilio yn newid yn 2022. Nid yw hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff y trydydd amod ei asesu gan y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau i roi barn archwilio bob blwyddyn. Mae hyn ar yr amod nad oes problemau mawr o ran llywodraethu a chadw cofnodion mewn cynghorau, a bod cynghorau'n cydweithredu'n llwyr ac yn rhoi'r holl wybodaeth a thystiolaeth angenrheidiol, yn brydlon, er mwyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi barn archwilio.

**Arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol**

1.28. Caiff cyngor cymuned cymwys ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i ymgymryd â gweithgaredd at ddiben masnachol. Fodd bynnag, dim ond os byddai'r cyngor hefyd yn dibynnu ar y pŵer cyffredinol hwn i gyflawni'r gweithgarwch hwnnw at ddiben anfasnachol y caiff wneud hynny, h.y. ni fyddai'n gallu codi tâl am weithgarwch y mae'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth iddo ei gyflawni. Er enghraifft, gallai cyngor sy'n cynnal a chadw ei lawntiau a'i dir ei hun ar hyn o bryd ddymuno defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i allu cynnig ei wasanaethau i feysydd chwaraeon lleol am ffi.

1.29. Mae'n ofynnol i gyngor cymuned cymwys ymgymryd ag unrhyw weithrediadau masnachu drwy gwmni (fel y'i diffinnir yn adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006 neu gymdeithas gofrestredig fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014). Rhaid i'r cwmnïau hynny fodloni'r gofynion ar gyfer sefydlu a rhedeg cwmni.

1.30. Rhaid i gynghorau cymuned cymwys gymryd camau digonol i ystyried y goblygiadau pe baent yn arfer y pŵer at ddiben masnachol. Nodir yr amodau penodol yn Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Rheoliadau 2022") ac maent yn darparu fel a ganlyn:

- Cyn arfer y pŵer, rhaid i gyngor cymuned cymwys baratoi a chymeradwyo achos busnes i gefnogi'r bwriad i arfer y pŵer. Mae'r rheoliadau drafft uchod yn nodi'r gofynion ar gyfer yr achos busnes.
- Os bydd y cyngor cymuned cymwys wedi cyflenwi unrhyw beth i'r cwmni y mae'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn cael ei arfer drwyddo am resymau masnachol, rhaid i'r cyngor adennill ei gostau oddi wrth y cwmni hwnnw.
- Rhaid i'r achos busnes gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i'w gymeradwyo.

1.31. Er enghraifft, efallai yr hoffai cyngor agor siop neu gaffi lleol. Er y gallai cyngor cymuned cymwys yn rhesymol helpu cwmni i ymsefydlu at y diben hwn, dylai adennill costau gwneud hynny. Gallai'r costau hyn gynnwys llety, nwyddau, gwasanaethau, staff neu unrhyw beth arall a gyflenwir er mwyn helpu i sefydlu'r siop neu'r caffi. Gallai cymhorthdal neu gyllid parhaus ystumio'r farchnad yn annheg a hefyd olygu bod cyllid cyhoeddus yn wynebu risg fasnachol ormodol.

**Pŵer i fasnachu mewn swyddogaethau arferol**

1.32. Daeth Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022 ("Gorchymyn 2022") i rym ar 5 Mai 2022 i gynnwys cynghorau cymuned. Mae hyn yn rhoi pŵer i gynghorau cymuned cymwys fasnachu ym mhob gwasanaeth, ar yr amod nad oes gofyniad cyfreithiol arnynt i'w ddarparu. Darperir ar gyfer pŵer awdurdod i fasnachu yn ei swyddogaethau arferol yn adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

1.33. Yn yr un modd ag arfer y pŵer cyffredinol at ddiben masnachol, pan fo cyngor cymuned cymwys yn bwriadu defnyddio'r pŵer i fasnachu yn ei swyddogaethau arferol, rhaid iddo baratoi, cymeradwyo a chyhoeddi achos busnes.

1.34. Swyddogaethau arferol cyngor cymuned yw'r swyddogaethau a nodir yn Neddfau Senedd y DU, a Mesurau neu Ddeddfau'r Senedd, e.e. pwerau i ddarparu rhandiroedd, darparu a chynnal a chadw cysgodfannau bysiau, a'r pŵer i hyrwyddo cynlluniau arbed ynni lleol. Nid ydynt yn cynnwys swyddogaethau dirprwyedig y mae rhai cynghorau cymuned yn eu cyflawni o dan gytundeb gan eu prif gyngor e.e. gwasanaethau llyfrgell.

### *Yr achos busnes*

1.35. Rhaid i achos busnes gael ei baratoi cyn i gyngor cymuned ddefnyddio'r *pŵer cyffredinol at ddibenion masnachol* neu'r *pŵer i fasnachu yn ei swyddogaethau arferol*. Diben yr achos busnes yw dangos yn glir bod y cyngor wedi gwneud asesiad rhesymol o'r cynnig ac wedi cytuno arno.

1.36. Dylai achosion busnes fod yn gymesur â chymhlethdod pob achos a maint y buddsoddiad sy'n cael ei ystyried. Dylai fod trywydd archwilio clir sy'n dangos bod y cyngor cymuned wedi gweithredu yn unol â'i bwerau. Rhaid i bob achos busnes gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cyngor benderfynu ei gymeradwyo.

1.37. Bydd canllawiau priodol ar baratoi achos busnes yn dibynnu ar natur y cynnig, ac ni fydd un ateb yn gweddu i bob sefyllfa. Fodd bynnag, o dan Orchymyn 2022, rhaid i achos busnes gynnwys yr elfennau canlynol:

- Nodau ac amcanion y bwriad i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol;
- Y costau, y buddsoddiadau a'r adnoddau eraill y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;
- Y canlyniadau ariannol y disgwylir eu cyflawni;
- Unrhyw ganlyniadau perthnasol eraill y disgwylir eu cyflawni;
- Unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig gan gynnwys asesiad o ddifrifoldeb y risgiau hynny, ac unrhyw gamau lliniaru;
- Yr effaith (gan gynnwys yr effaith ar delerau ac amodau cyflogaeth) ar unrhyw staff y mae’n bwriadu eu cyflenwi i gwmni er mwyn gwneud pethau at ddiben masnachol.

1.38. Nid yw'r rheoliadau'n nodi pwy ddylai fod yn gyfrifol am gymeradwyo'r achos busnes – dim ond mai mater i'r cyngor yw rhoi'r gymeradwyaeth honno. Caiff hyn ei benderfynu'n lleol. Fodd bynnag, argymhellir bod yr aelodau, yn ogystal â'r cyhoedd, yn cael gwybod yn glir sut mae'r broses gymeradwyo yn gweithio; er enghraifft, drwy reolau sefydlog neu gynlluniau dirprwyo'r cyngor.

### **Terfynau'r pŵer cymhwysedd cyffredinol**

1.39. Nid yw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn caniatáu i gynghorau cymuned osgoi’r gwaharddiadau neu’r cyfyngiadau mewn deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli. Mae angen diwydrwydd dyladwy a phrosesau gwneud penderfyniadau cadarn a thryloyw o hyd. At hynny, bydd cynghorau am sicrhau bod ganddynt ddigon o gymorth cymunedol a chyllid cyn arfer y pŵer.

1.40. Wrth arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, rhaid i gynghorau cymuned cymwys weithredu yn unol â'r egwyddor a sefydlwyd yn achos *Associated Provincial Picture Houses Ltd v Wednesbury Corporation (1948) 1 KB 223* (a

elwir yn achos *Wednesbury*). Fe wnaeth y dyfarniad yn yr achos hwnnw ddatgan yn glir y gall cyngor arfer disgresiwn rhesymol wrth ddehongli deddfwriaeth ar yr amod ei fod yn cyfiawnhau ei benderfyniad o ran materion perthnasol, yn hytrach na materion amherthnasol.

1.41. Os yw cyngor eisoes yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol, bydd y ddyletswydd honno yn weithredol o hyd. Er enghraifft, mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys cynghorau cymuned i, "... [g]ynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau...ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau" (a elwir yn ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau)." Mae rhestr gynhwysfawr o ddyletswyddau statudol sy'n berthnasol i gynghorau cymuned a thref i'w gweld yn *Canllaw'r Cynghorydd Da: ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref.*

1.42. Rhaid i'r cyngor barhau i gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol megis cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth iechyd a diogelwch, deddfwriaeth cydraddoldeb a dyletswyddau'n ymwneud â diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

1.43. Ni all cynghorau cymuned cymwys ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol hwn os mai'r prif ddiben yw codi arian, ond gallant ennill incwm wrth ddefnyddio'r pŵer at brif ddiben gwahanol. Er enghraifft, gallai'r cyngor roi benthyg arian i gefnogi gweithgaredd lleol ac ennill llog ar y benthyciad a gallai hefyd godi arian nawdd ar gyfer prosiect cymunedol.

1.44. Drwy Ddeddf 2021 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, mae cyfyngiadau priodol eraill ar ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, gan gynnwys y canlynol:

- Y gofyniad am strwythur cwmni wrth ddefnyddio'r pŵer cyffredinol at ddiben masnachol, ac achos busnes sy'n ystyried costau, manteision a risgiau pob cynnig;
- Cyfyngiadau ar ffioedd a thaliadau am wasanaethau disgresiynol;
- Gwiriadau i chwilio am gyfyngiadau cyn ac ar ôl cychwyn (pan all pŵer penodol gael ei nodi). Er enghraifft, ni ellir defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i ailysgrifennu neu anwybyddu unrhyw rannau o bwerau a dyletswyddau statudol datganedig.

**Adolygiad blynyddol o gymhwystra**

1.45. O dan adran 31(1) o Ddeddf 2021, unwaith y bydd cyngor cymuned wedi penderfynu ei fod yn gyngor cymuned cymwys, bydd angen iddo gadarnhau'n flynyddol ei fod yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwysedd. Gall cyngor wneud hyn drwy basio penderfyniad i'r perwyl hwn yn ei gyfarfod blynyddol.

1.46. Yn achos cyngor sydd wedi pasio penderfyniad yn briodol ei fod yn gymwys yn y cyfarfod blynyddol cyntaf a gynhelir ar ôl i Reoliadau 2022 gychwyn ar 5 Mai 2022, bydd yn cadw'r statws hwnnw tan ei gyfarfod blynyddol nesaf. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i'r cyngor, a'r rheini y mae'n delio â nhw, o gwmpas ei bwerau.

1.47. Mae Rhan 1, Atodlen 4 i Ddeddf 2021 yn diwygio paragraff 26ZA o Ddeddf 1972 i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi canlyniad penderfyniadau o

fewn saith niwrnod gwaith i gyfarfod y cyngor. Felly, rhaid i ganlyniad y penderfyniad i barhau fel cyngor cymuned cymwys, neu beidio, gael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor cymuned yn unol â'r un amserlen. Mae hyn yn rhoi eglurder i'r cyngor, a'r rhai y mae'n delio â nhw, ynghylch ei allu i arfer y pŵer cyffredinol.

**Peidio â bod yn gymwys**

1.48. Gall cyngor cymuned benderfynu nad yw'n dymuno bod yn gyngor cymuned cymwys mwyach, er ei fod yn bodloni'r amodau. Caiff cyngor cymuned cymwys basio penderfyniad mewn unrhyw gyfarfod o'r cyngor ei fod yn peidio â bod yn gymwys. Byddai'r cyngor wedyn yn peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys ar ddiwedd y dydd yn dilyn y cyfarfod lle pasiwyd y penderfyniad. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r cyngor gyhoeddi ei benderfyniad nad yw'n gyngor cymuned cymwys mwyach o fewn saith niwrnod gwaith i ddyddiad y penderfyniad (adran 32 o Ddeddf 2021).

1.49. O dan adran 31(2) o Ddeddf 2021, os na fydd y cyngor yn pasio penderfyniad yn y cyfarfod blynyddol priodol ei fod parhau i fod yn gyngor cymuned cymwys, bydd yn peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys ar ddiwedd y diwrnod sy'n dilyn y cyfarfod blynyddol dan sylw. Ni fydd modd iddo arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol nes iddo basio penderfyniad ei fod yn gymwys, a all ddigwydd yng nghyfarfod nesaf y cyngor.

**Beth fydd yn digwydd i gytundebau y mae cyngor cymuned cymwys wedi ymrwymo iddynt os bydd y cyngor hwnnw yn peidio â bod yn gymwys?**

1.50. Mae adran 33 o Ddeddf 2021 yn darparu, os gall cyngor cymuned cymwys sy'n peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys (ac sydd felly'n colli'r cymhwysedd pŵer cyffredinol) barhau i ddibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol mewn perthynas â phethau y mae wedi'u gwneud wrth arfer y pŵer hwnnw tra'i fod yn gyngor cymuned cymwys, e.e. darparu gwasanaethau neu ymgymryd â gweithgareddau, er ei fod wedi peidio â bod yn gymwys.

1.51. Fodd bynnag, ni allai'r cyngor ymrwymo i gontract newydd na newid trefniant presennol fel ei fod yn sylweddol wahanol i'r hyn a oedd mewn grym pan oedd y cyngor yn dal i fod yn gymwys.

**Cynghorau Cymuned Cyffredin**

1.52. O adrannau 27E a 27F o Ddeddf 1972, mae gan gymunedau y pŵer i wneud cais am orchymyn bod cymuned yn cael ei grwpio gyda chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin.

1.53. Mewn amgylchiadau lle caiff cyngor cymuned cyffredino'r fath ei ffurfio ar ôl 20 Ionawr 2021 yn dilyn Gorchymyn a wnaed o dan adran 27F o Ddeddf 1972, mae'n gyngor newydd i bob pwrpas.

1.54. Yn yr achos hwn, gallai cyngor cymuned cyffredin newydd fodloni dau o'r tri amod cymhwystra mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyfran yr aelodau etholedig – gan y byddai'r gorchymyn a wnaed gan y prif gyngor yn gwneud darpariaeth ar gyfer etholiad o dan Ddeddf 1972, adran 27F(5)(a);

- Cyflogi clerc sy'n meddu ar un o'r cymwysterau perthnasol a nodir yn Rheoliadau 2021.

1.55. Fodd bynnag, ni fyddai'n gallu bodloni'r amod mewn perthynas â’r trydydd amod cymhwystra, yn ymwneud â dwy farn archwilio fwyaf diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru, am o leiaf ddwy flynedd.

1.56. Er mwyn mynd i'r afael â'r amryfusedd hwn, nid yw'r amod hwn yn gymwys i gyngor cymuned cyffredin lle roedd gan o leiaf hanner y cymunedau sydd wedi grwpio gyda'i gilydd i ffurfio'r cyngor cymuned cyffredin newydd gynghorau cymuned ar wahân yn union cyn hynny a oedd yn bodloni'r trydydd amod hwn.

1.57. Fodd bynnag, os bydd barn gyntaf Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y cyngor cymuned cyffredin yn farn archwilio amodol, bydd y cyngor cymuned cyffredin yn peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys ar unwaith.

**Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Chynghorau Cymuned a Thref**

1.58. Mae adran 137(1) o Ddeddf 1972 wedi cael ei chadw ar gyfer cynghorau cymuned nad ydynt yn dymuno pasio penderfyniad eu bod yn gynghorau cymuned cymwys, neu na allant fodloni'r amodau cymhwystra eto.

1.59. Bydd cyngor cymuned nad yw’n  pasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys yn gallu defnyddio'r pŵer presennol o hyd o dan adran 137(1) o Ddeddf 1972. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i gynghorau cymuned wario swm cyfyngedig o arian ar weithgareddau nad oes ganddynt unrhyw bwerau penodol eraill ar eu cyfer. Dim ond os bydd y cyngor o'r farn y bydd hynny er budd uniongyrchol i'w ardal, neu ran o'i ardal, neu rai o'i drigolion neu bob un ohonynt, y caiff wneud hynny. Hefyd, o dan adran 137(3), caniateir i gynghorau cymuned fynd i wariant at ddibenion elusennol penodol a dibenion eraill.

1.60. Cyfrifir uchafswm y gwariant a ganiateir bob blwyddyn. Caiff y swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r fformiwla a nodir yn Atodlen 12B i Ddeddf 1972.

1.61. Unwaith y bydd cyngor yn pasio penderfyniad ei fod yn gyngor cymuned cymwys, ni fydd adran 137 o Ddeddf 1972 yn gymwys i'r cyngor mwyach gan fod y pŵer cymhwysedd cyffredinol – o dan adran 24 o Ddeddf 2021 - yn llai cyfyngol. Os bydd cyngor yn peidio â bod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, bydd adran 137 o Ddeddf 1972 yn gymwys i'r cyngor hwnnw unwaith eto.

1.62. Dylid nodi na ellir defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol nac adran 137 o Ddeddf 1972 i osgoi gwaharddiad statudol ar gyngor cymuned rhag cyflawni swyddogaeth benodol.

1.63. Mae adran 137 o Ddeddf 1972 yn fwy cyfyngol na'r pŵer cymhwysedd cyffredinol oherwydd ei bod yn cwmpasu gweithgareddau sy'n atodol i swyddogaethau cynghorau cymuned. Mae hyn yn golygu bod adran 137 o Ddeddf 1972 yn cyfyngu ar wariant cyngor cymuned i feysydd sydd, yn eu barn

nhw, er budd i'w hardal neu unrhyw ran ohoni, eu holl breswylwyr neu rai ohonynt, ac a fydd yn dod â budd uniongyrchol iddynt.

1.64. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, er mwyn i adran 137 o Ddeddf 1972 a ddefnyddir fel sail i ymgymryd â gweithred, rhaid i'r budd uniongyrchol sy'n cronni i ardal y cyngor cymuned (neu i unrhyw ran ohono, neu i'r cyfan neu rai o drigolion ei ardal) fod yn gymesur â'r gwariant a ysgwyddwyd. Mae gwariant yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ariannol presennol. Nid oes terfyn gwariant wrth ddibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

1.65. Er bod y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor cymuned fodloni meini prawf cymhwyso cyn y gall basio penderfyniad ei fod yn gymwys i arfer y pŵer hwnnw, nid yw adran 137 o Ddeddf 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned fodloni meini prawf penodol cyn y gall arfer y pŵer.

**Deddf Llywodraeth Leol 2000 – Pŵer Llesiant**

1.66. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (“Deddf 2000”) y “pŵer llesiant” a oedd yn galluogi awdurdodau lleol i wneud unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn debygol o hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu'r bobl ynddi, ar yr amod nad yw deddfwriaeth arall yn eu hatal rhag gwneud hynny. Daeth y pŵer hwn i gynghorau cymuned i rym yng Nghymru ar 11 Mai 2011.

1.67. Mae cael tri phŵer cyffredinol yn y gyfraith yn ddryslyd ac yn ddiangen, ac mae'r sector wedi mynegi hynny'n glir.

1.68. Felly, cafodd y ‘pŵer llesiant’ a ddarperir yn adran 2 o Ddeddf 2000 ei ddiddymu ar gyfer **pob** cyngor cymuned pan ddaeth y darpariaethau mewn perthynas â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i rym ar gyfer cynghorau cymuned a thref cymwys ar 5 Mai 2022.

1.69. Gall cynghorau cymuned barhau i wneud unrhyw beth a ddechreuwyd ganddynt, ac sydd ar y gweill, ar yr adeg pan diddymwyd y pŵer hwn, ac unrhyw beth a oedd yn mynd rhagddo bryd hynny. Fodd bynnag, dylid rhoi’r gorau i ddibynnu ar y pŵer hwn ar ôl i’r gweithgaredd gael ei gwblhau neu pan fydd cyngor yn pasio penderfyniad i fod yn gyngor cymuned cymwys. Ni chaiff y cyngor cymuned ddechrau unrhyw beth newydd gan ddefnyddio'r pŵer llesiant o 5 Mai 2022.

**Effaith arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol**

1.70. Dros amser, bwriedir asesu nifer y cynghorau cymuned sy'n pasio penderfyniad eu bod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, ac at ba ddibenion y maent yn defnyddio'r pŵer hwnnw. Bydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant, sy'n cyfarfod bob chwarter, yn asesu effaith y darpariaethau ar adegau allweddol. Bydd yn defnyddio tystiolaeth o arolygon, adroddiadau blynyddol cynghorau cymuned, ac yn monitro faint sy'n cael hyfforddiant y Dystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol.

**Astudiaethau achos**

1.71. Ar adeg cyhoeddi'r canllawiau statudol hyn, nid oes unrhyw enghreifftiau o gynghorau cymuned yng Nghymru sy'n dangos sut y gellid defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Fodd bynnag, gellir dod o hyd i astudiaethau achos o gynghorau plwyf yn arfer y pŵer cymhwysedd cyffedinol ar wefan y Gymdeithas Llywodraeth Leol.

## 2. Pennod 2 – Cyfarfodydd aml-leoliad

2.1. Gwnaeth Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 newidiadau dros dro i drefniadau cyfarfod ar gyfer cynghorau cymuned, gan ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal yn rhithwir (h.y. cyfarfodydd aml-leoliad) a'i gwneud yn ofynnol i ddogfennau cyfarfodydd gael eu cyhoeddi'n electronig. Roedd y newidiadau hyn wedi galluogi cynghorau i barhau i gynnal cyfarfodydd yn ystod pandemig y coronafeirws. Roedd y newidiadau yn boblogaidd ac yn fuddiol, felly penderfynodd Llywodraeth Cymru eu gwneud yn barhaol drwy Ddeddf 2021.

2.2. Mae llawer o gynghorau wedi gweld bod presenoldeb – gan gynnwys presenoldeb y cyhoedd – a'r hyn y gellir ei gyflawni mewn cyfarfodydd wedi gwella gyda chyfarfodydd aml-leoliad. Mae manteision hefyd o ran lleihau teithio a galluogi cynghorwyr, aelodau o'r cyhoedd a'r wasg i ymgysylltu'n fwy hwylus ac yn fwy cyfleus mewn cyfarfodydd cyngor.

2.3. Ni ddylid ystyried mai cyfarfodydd ffisegol yw'r safon aur ac mai cyfarfodydd aml-leoliad yw'r ail ddewis. Gall cyfarfodydd ffisegol fod yn gyfleus ac yn effeithiol i'r rhai sydd fwyaf cyfarwydd â nhw ond gallant fod yn anhygyrch neu'n anghyfleus i lawer.

**Beth yw'r gofynion?**

2.4. Mae'r adran hon yn nodi'r pethau y mae'n rhaid i awdurdodau eu gwneud o safbwynt cyfarfodydd aml-leoliad.

2.5. Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned wneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer ei gyfarfodydd er mwyn sicrhau y gall pobl nad ydynt yn yr un lle gyfarfod â'i gilydd. O dan y trefniadau, bydd angen i gynghorau gymryd camau rhesymol i sicrhau y gall cyfarfodydd gael eu cynnal o sawl lleoliad. Os caiff y trefniadau eu diwygio neu eu newid, rhaid i'r trefniadau newydd gael eu cyhoeddi hefyd.

2.6. Cafodd ymarferoldeb trefniadau eu hystyried yn ofalus ac mae'n bwysig bod cynghorau yn gwybod ***mai'r isafswm y mae angen ei sicrhau yw bod aelodau'n gallu clywed a chael eu clywed gan eraill.***

2.7. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys:

- Bod y cyfranogwyr i gyd yn yr un lleoliad ffisegol;
- Bod y cyfranogwyr i gyd yn yr un lleoliad ffisegol heblaw am un unigolyn sy'n ymuno o leoliad arall e.e. drwy gynhadledd fideo neu ffôn;
- Bod tua'r un faint o gynghorwyr yn bresennol mewn man ffisegol ac yn ymuno drwy ddulliau o bell;
- Yn gyfan gwbl drwy ddulliau o bell a heb fod unrhyw drefniadau ffisegol wedi cael eu gwneud.

2.8. Er bod Deddf 2021 yn caniatáu cyfarfodydd ffisegol yn yr un lleoliad, rhaid i gynghorau nodi bod Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr (h.y. aelodau cynghorau, aelodau o'r cyhoedd a'r wasg) allu ymuno â chyfarfodydd o bell – hyd yn oed os mai cyfarfodydd ffisegol yw'r dull a ffefrir. Rhaid i

gynghorau gyhoeddi'r trefniadau hyn, er enghraifft, drwy reolau sefydlog. Ni chaniateir i gynghorau basio penderfyniad y caiff pob cyfarfod ei gynnal yn gyfan gwbl ffisegol. Dylai cynghorau gymryd camau rhesymol i alluogi pobl i ymuno o leoliad arall.

**Beth ddylai'r trefniadau ei ystyried?**

2.9. Rhaid i'r trefniadau fod yn berthnasol i'ch cyngor. Dylent fod yn gyson ag egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus a'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau cynghorau cymuned a rhaid iddynt ystyried y cyngor a/neu'r ddeddfwriaeth o ran iechyd y cyhoedd sy'n berthnasol ar y pryd.

2.10. Awgrymir y dylai'r trefniadau gwmpasu'r canlynol:

- Sut y bydd cyngor yn penderfynu pa gyfarfodydd fydd yn cynnwys elfen ffisegol (h.y. ystafell gyfarfod y cyngor) a sut y bydd y cysylltiad o bell yn gweithio yn yr achosion hynny;
- Lleoliad cyfarfodydd ffisegol a'r llwyfan cyfarfod ar-lein priodol a/neu gysylltiad ffôn (lle bo hynny'n berthnasol). Efallai y bydd angen i gynghorau ystyried y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol a gwerth am arian o safbwynt unrhyw waith i uwchraddio seilwaith.
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd, gan gynnwys pennu ble mae aelod yn bresennol a gweithdrefnau pleidleisio;
- Ffyrdd o weithio yn ystod y cyfarfod e.e. a ddylid defnyddio'r adnodd sgwrsio lle bo hynny'n briodol a sut i wneud hynny, rheoli ymddygiad afreolus a phleidleisio;
- Trefniadau i helpu cyfranogwyr eraill (gan gynnwys y cyhoedd a'r wasg) i allu mynychu'r cyfarfod a chymryd rhan ynddo. Gall hyn gynnwys ystafell aros rithiol er mwyn sicrhau mynediad priodol ac amserol;
- Sicrhau bod y cyfarfod yn gynhwysol ac yn hygyrch ac yn gyson ag unrhyw Gynllun Iaith Gymraeg a fabwysiedir gan y cyngor.

2.11. Nid yw'n ofynnol i gynghorau gynnal cyfarfodydd yn yr un ffordd bob tro y byddant yn cyfarfod.

2.12. Bydd y ffordd y caiff y cyfarfodydd eu cadeirio a'u cynnal ychydig yn wahanol, yn dibynnu a yw'n gyfarfod ffisegol yn unig, yn gyfarfod rhithwir yn unig neu'n gymysgedd o'r ddau. Bydd angen i drefniadau gael eu haddasu wrth i gynghorau ddysgu o brofiad (h.y. oddi wrth gynghorau eraill a'u cymuned eu hunain) am yr hyn sy'n gweithio'n effeithiol o ran cynnal cyfarfodydd clir, tryloyw a hygyrch.

2.13. Wrth benderfynu pa gyfarfodydd y gellir eu cynnal yn gyfan gwbl o bell a/neu gyda darpariaethau ffisegol, dylai cynghorau ystyried:

- Amgylchiadau cynghorwyr unigol a’r hyn sydd orau ganddynt hwy o ran cymryd rhan mewn cyfarfodydd. Efallai y bydd rhai cynghorwyr am ymuno â chyfarfodydd cyngor o leoliad arall bob amser am fod ganddynt gyfrifoldebau gwaith neu ofalu sy'n ei gwneud yn anodd iddynt fynd i gyfarfodydd yn y cnawd. Yn yr un modd, efallai y bydd rhai cynghorwyr am fynychu cyfarfod yn y cnawd;

- Sut y gall aelodau o'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd. Gall fod rhesymau da iawn pam na all unigolion fod yn bresennol yn y cnawd ond eu bod, serch hynny, am wrando ar drafodion ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Efallai hefyd yr hoffent fynegi barn ar faterion sydd ar yr agenda;

- Hygyrchedd y wasg i glywed am storïau lleol a gohebu arnynt er mwyn galluogi trafodaeth gyhoeddus ehangach ac atebolrwydd;

- Yr ystod o leoliadau sydd ar gael o fewn pellter teithio rhesymol. Er enghraifft, gall seilwaith ysgolion lleol neu adeiladau sector cyhoeddus eraill olygu bod mynediad o bell yn haws;

- Sut y gellir defnyddio teleffoni a thechnoleg arall i gefnogi a hwyluso cyfarfodydd aml-leoliad sy'n gymesur â'r amgylchiadau;

- A ellir addasu trefniadau i ddarparu ar gyfer ceisiadau hwyr (e.e. ychydig cyn y cyfarfod neu yn ystod y cyfarfod) i ymuno'n rhithwir lle yr oedd disgwyl i gyfarfod fod yn un gyfan gwbl ffisegol, gan sicrhau bod y safonau gofynnol yn cael eu cyrraedd – lle y bo'n rhesymol

**Y Gymraeg**

2.14. Er nad yw cynghorau cymuned yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae disgwyl iddynt gadw at brif egwyddor y Mesur a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd y cyngor cymuned am ystyried sut y gallai annog a galluogi'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r cyngor cymuned, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i unrhyw un nad yw'n deall y Gymraeg.

2.15. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi cyngor ar sut i gefnogi gwaith dwyieithog, gan gynnwys:

- Drafftio dwyieithog;
- Cyfieithu testun;
- Defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb;
- Cynnal cyfarfodydd fideo dwyieithog.

## 3. Pennod 3 – Cyfranogi mewn cyfarfodydd

3.1. Yn ymarferol, mae llawer o gynghorau eisoes wedi cyflwyno ffyrdd ffurfiol neu anffurfiol i'r cyhoedd gymryd rhan yn eu cyfarfodydd. Cyn i Ddeddf 2021 gael ei phasio, roedd gan aelodau o'r cyhoedd hawl statudol i fynychu cyfarfodydd cynghorau cymuned, ond dim ond yn ôl disgresiwn y person a oedd yn llywyddu'r cyfarfod y gallent siarad.

3.2. Mae adran 48 o Ddeddf 2021 yn gwneud darpariaeth i'r cyhoedd gyfranogi yng nghyfarfodydd llawn cynghorau cymuned neu'r rhannau hynny o gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd. Rhaid i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod roi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol gyflwyno sylwadau am unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod, os nad yw hynny'n debygol o gael effaith andwyol ar y gallu i gynnal y cyfarfod yn effeithiol. Nid yw hynny'n golygu y caiff aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan mewn trafodaeth, ond rhaid rhoi *cyfle rhesymol iddynt wneud sylwadau am y materion a drafodir.*

3.3. Un opsiwn ar gyfer rheoli hyn yw gwahodd yr aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol i roi barn ar faterion lle bo hynny'n berthnasol, a rhoi terfyn amser rhesymol iddynt. Efallai yr hoffai cadeiryddion ofyn i aelodau o'r cyhoedd roi gwybod iddynt ymlaen llaw pa eitemau yr hoffent eu trafod. Mae'n barchus cydnabod y cyfraniadau ychwanegol hyn ac ymateb iddynt gan eu bod yn adlewyrchu barn aelodau o'r gymuned sydd â diddordeb yn y pynciau dan sylw.

3.4. Gall aelodau o'r cyhoedd siarad am ychydig mwy o amser nag a ganiateir a dylid rhoi amser rhesymol iddynt orffen. Fodd bynnag, os byddant yn amharu ar y cyfarfod ac yn ei gwneud yn anodd i'r cyfarfod barhau, efallai yr hoffai'r Cadeirydd ystyried gweithdrefnau ar gyfer atal yr ymyrraeth honno, gan gynnwys rhybudd ffurfiol i roi'r gorau iddi, oedi'r cyfarfod a/neu gael gwared ar ffynhonnell yr ymyrraeth.

3.5. Er mwyn sicrhau tryloywder, didueddrwydd a datrys unrhyw gamddealltwriaeth bosibl, argymhellir y dylai rheolau o ran cyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd cyngor gael eu cynnwys a'u cyhoeddi yn rheolau sefydlog y cyngor ac ar wefan y cyngor.

# 4. Pennod 4 – Adroddiadau Blynyddol

4.1. Mae rhanddeiliad wedi mynegi cefnogaeth yn gyson i'r egwyddor y dylid gwneud gwaith cynghorau cymuned yn fwy tryloyw a chodi ymwybyddiaeth ohono.

4.2. Er enghraifft, un o ganfyddiadau allweddol y panel adolygu annibynnol ar gynghorau cymuned a thref oedd nad oedd gweithgareddau cynghorau cymuned yn ddigon gweladwy. Canfu'r panel fod angen dybryd i gynyddu ymwybyddiaeth o fodolaeth cynghorau cymuned a'u gwaith o fewn eu cymunedau, yn ogystal ag angen i gynghorau ymgysylltu â chymunedau wrth wneud penderfyniadau.

4.3. Mae adran 52 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor yn ystod y flwyddyn flaenorol.

4.4. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gynghorau cymuned lunio a chyhoeddi adroddiadau eraill.

- Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned baratoi a chyhoeddi cynllun bob tair blynedd yn nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cydnerthedd. O dan adran 6(7) o Ddeddf 2016, roedd yn ofynnol i'r adroddiad cyntaf o'r fath gael ei gyhoeddi cyn diwedd 2019 gyda'r holl adroddiadau dilynol i'w cyhoeddi cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019.
- Mae adran 40 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i rai cynghorau cymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y cynnydd a wnaed ganddynt i gyflawni'r amcanion llesiant lleol yn eu hardal. Y cynghorau perthnasol yw'r rheini sydd wedi cofnodi trosiant blynyddol o £200,000 neu fwy yn ystod y tair blynedd ariannol cyn i'r cynllun llesiant lleol gael ei gyhoeddi;

4.5. Gall cynghorau cymuned naill ai ddewis paratoi adroddiadau ar wahân neu gyfuno'r rhain yn un adroddiad.

### Amseriad adroddiadau blynyddol

4.6. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn ofynnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2022, a bydd disgwyl iddo gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 1 Ebrill 2022. Dylai adroddiadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod gael eu cyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.

### Cynnwys adroddiadau blynyddol

4.7. Mae'r adroddiad blynyddol yn rhan o amrywiaeth o ffyrdd y mae'r cyngor yn ymgysylltu â'i gymuned, gan gynnwys drwy wefan y cyngor, cylchlythyrau rheolaidd, ymgyngoriadau a'r cyfryngau cymdeithasol.

4.8. Dylai adroddiad blynyddol gynnwys gwybodaeth sy'n atgyfnerthu atebolrwydd y cyngor ac yn rhoi mwy o dryloywder o ran y gwaith sydd wedi cael ei wneud. Dylai'r adroddiad blynyddol fod yn ffordd ragweithiol o rannu gwybodaeth am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor.

4.9. Nid oes templed ar gael ar gyfer adroddiadau blynyddol cynghorau cymuned gan y bydd y fformat yn adlewyrchu'r hyn y mae'r cyngor yn ei wneud. Mae disgwyl i fanylder yr adroddiad adlewyrchu maint a chwmpas gweithgareddau'r cyngor. Mae'n gyfle i ddangos gwaith y cyngor, gan fwrw golwg ar weithgarwch y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen at ei gynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

4.10. Er nad oes templed, efallai yr hoffai cynghorau ystyried yr wybodaeth ganlynol yn eu hadroddiadau.

***Cyd-destun***

- Gwybodaeth am drefniadaeth y cyngor
    - Cynghorwyr
    - Is-bwyllgorau ac aelodau
    - Gwybodaeth gyswllt allweddol

- Gwybodaeth ariannol sylfaenol, gan gynnwys (neu'n gysylltiedig â'r canlynol):
    - Cyfrifon archwiliedig a barn archwilio ar gyfer y flwyddyn berthnasol ac unrhyw adroddiad cysylltiedig er budd y cyhoedd (os nad yw cyfrifon wedi'u harchwilio eto, dylid nodi eu bod yn rhai heb eu harchwilio)
    - Dylai'r wybodaeth a gyflwynir fod yn gyson â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

- Y berthynas â'r prif gyngor
    - Statws siarteri neu brotocolau ffurfiol i weithio gyda'r prif gyngor
    - Y diweddaraf ar hynt unrhyw drosglwyddiadau gwasanaeth neu asedau posibl

- Cynllun hyfforddi (efallai yr hoffai'r cyngor gynnwys ei gynllun hyfforddi yn y ddogfen hon)

- Nifer y cwynion a wnaed, testun y cwynion a'r canlyniadau (os yw hynny'n berthnasol).

- Ymateb i adroddiad blynyddol gan Bwyllgor Safonau *(os oes unrhyw argymhellion wedi'u gwneud ar gyfer y cyngor cymuned hwnnw).*

***Gweithgareddau***

- Amcanion allweddol y cyngor ar gyfer y flwyddyn
    - Cynnydd yn erbyn yr amcanion

- Asedau a gwasanaethau
    - Asedau a gwasanaethau a reolir
    - Prosesau trosglwyddo asedau sydd ar waith neu sydd wedi'u cwblhau

- Y gweithgareddau y mae'r cyngor wedi'u cynnal ac yn bwriadu eu cynnal i ymgysylltu â'i gymuned

- Adroddiadau eraill y cyngor cymuned *(drwy adroddiad cyfansawdd neu ddolenni i adroddiadau eraill y cyngor)* h.y.
    - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
    - Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

***Cyflawniadau***

- Uchafbwyntiau'r flwyddyn gan gynnwys allbynnau a chanlyniadau gwasanaethau neu weithgareddau allweddol a ddarparwyd/cyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

- Bwrw golwg ar yr hyn a weithiodd yn dda a'r hyn na weithiodd cystal.

- Cadarnhad o gymhwystra i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol (lle bo hynny'n berthnasol)
    - Sut mae'r cyngor wedi defnyddio'r pŵer.

***Blaenoriaethau***

- Gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf
- Gofynion cyllidebol yn y dyfodol a sut y cyflawnir y blaenoriaethau, e.e. o'r praesept, cronfeydd wrth gefn neu weithgareddau masnachol drwy'r pŵer cymhwysedd cyffredinol (os yw'r cyngor yn arfer y pŵer hwnnw).

4.11. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r eitemau y gellid eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol. Mater i gynghorau yw ystyried pa agweddau ar eu gwaith sy'n ***berthnasol ac yn gymesur*** i'w cynnwys yn eu hadroddiad.

4.12. Wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, mae'n arfer da ystyried sut y mae'r gwaith a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf – a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf – yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Hirdymor
- Integreiddio
- Cynnwys
- Cydweithio
- Atal

**Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol**

4.13. Caiff y cyngor wneud ei drefniadau ei hun ar gyfer paratoi rhannau amrywiol yr adroddiad blynyddol – e.e. drwy staff neu drwy bwyllgorau. Ar ôl i'r adroddiad gael ei lunio, rhaid i'r cyngor llawn ei ystyried a'i gymeradwyo; ni all y penderfyniad i'w gymeradwyo ai peidio gael ei ddirprwyo i un o bwyllgorau'r cyngor neu un o swyddogion y cyngor.

**Cyhoeddi'r adroddiad blynyddol**

4.14. Dylai adroddiad blynyddol y cyngor gael ei gyhoeddi yn unol â'r drefn ehangach ar gyfer cyhoeddi papurau cynghorau yn Atodlen 4 i Ddeddf 2021; h.y. dylai'r adroddiad gael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y cyngor cymuned.

4.15. Lle bo cyngor cymuned wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg, mae'n bosibl y bydd y cynghorau hynny wedi gwneud ymrwymiad drwy'r Cynllun i gyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol yn Gymraeg. Os nad oes cynllun o'r fath wedi'i fabwysiadu, caiff cynghorau eu hannog i gyhoeddi'n ddwyieithog er mwyn rhoi dewis iaith i'w cymuned.

**Dysgu gan eraill wrth baratoi'r adroddiad blynyddol**

4.16. Mae llawer o gynghorau eisoes yn cyhoeddi adroddiadau ar eu gwaith ar gyfer eu cymunedau lleol, a hynny'n aml o dan y teitl 'adroddiad blynyddol' ac, felly, gallai fod yn ddefnyddiol i gynghorau edrych ar y dulliau gweithredu a fabwysiadwyd gan gynghorau eraill wrth iddynt baratoi eu hadroddiad blynyddol.

4.17. Mae adroddiadau'n amrywio o ran eu hyd, eu cynnwys a'u diwyg ond, i raddau helaeth, maent yn cynnwys y rhan fwyaf o'r eitemau ym mharagraff 4.10.

4.18. Os ydych yn paratoi adroddiad blynyddol cyntaf eich cyngor, gall fod yn ddefnyddiol i chi edrych ar rai enghreifftiau gan gynghorau eraill er mwyn helpu i lywio dull gweithredu eich cyngor. Mae llawer o hyblygrwydd o ran strwythur, fformat a chyfrwng adroddiadau blynyddol cyhoeddedig. Bydd eich cyngor yn awyddus i ystyried sut y gellir gwneud yr adroddiad yn ddiddorol ac yn hygyrch i'w gymuned.

## 5. Pennod 5 – Cynlluniau Hyfforddi

5.1. Dylai cynghorau cymuned a'u staff geisio sicrhau eu bod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl wrth gyflawni swyddogaethau. Dylai cynghorau edrych yn rheolaidd am gyfleoedd i wella eu systemau gweinyddu a llywodraethu fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau a gwasanaethu eu cymunedau'n well. Ar ôl nodi bylchau mewn datblygiad, y cam nesaf yw datblygu cynllun i lenwi'r bylchau hyn.

5.2. Mae adran 67 o Ddeddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned baratoi a chyhoeddi cynllun ynglŷn â'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer eu haelodau a'u staff. Rhaid paratoi a chyhoeddi'r cynllun hyfforddi cyntaf erbyn 5 Tachwedd 2022, chwe mis ar ôl i'r ddyletswydd ddod i rym. Ystyrir bod hwn yn gyfnod priodol o amser i gynghorau asesu anghenion, cytuno ar eu cyllideb hyfforddi a mabwysiadu cynllun.

5.3. Dylai'r cynllun hyfforddi ystyried a oes gan y cyngor, ar y cyd, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arno i gyflawni ei gynlluniau yn y ffordd fwyaf effeithiol, a mynd i'r afael â hynny.

**Diben y cynllun hyfforddi**

5.4. Gellir cynllunio'r hyfforddiant mewn ffordd gymesur gan ystyried ffactorau fel gweithgareddau'r cyngor hwnnw, arbenigedd presennol y cynghorwyr a'r clercod, a natur ac arwyddocâd unrhyw anghenion hyfforddi a nodwyd. Yn gyffredinol, y bwriad yw y byddai paratoi cynllun hyfforddi yn helpu i sicrhau bod cynghorwyr, yn ogystal â chlercod proffesiynol a chyflogeion eraill, yn cael yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rôl.

**Dadansoddi anghenion hyfforddi**

5.5. Er mwyn pennu blaenoriaethau hyfforddi'r cyngor cymuned, mae angen asesu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar y cyngor ac a yw'r cyngor yn teimlo bod digon o ehangder a dyfnder ym mhob rhan o'r cyngor. Bydd y rhestr lawn o sgiliau hanfodol yn dibynnu ar weithgareddau'r cyngor. Er enghraifft, efallai y bydd cyngor sy'n bwriadu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn ystyried ei bod yn hanfodol bod ei gynghorwyr yn gyfarwydd â pharatoi achos busnes neu sefydlu busnes.

5.6. Dylai *pob* cyngoe sicrhau bod ganddo sgiliau a dealltwriaeth ddigonol mewn rhai meysydd penodol, sef:

- Hyfforddiant sefydlu sylfaenol i gynghorwyr;
- Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru;
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

5.7. Yn ogystal â'r meysydd hyn, bydd y cyngor am ystyried a oes unrhyw heriau neu gyfleoedd newydd yr hoffai ymchwilio iddynt, fel y rhai sy'n gysylltiedig â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Os felly, efallai y gwnaiff benderfynu y dylai cynghorwyr a chlercod feithrin sgiliau newydd.

5.8. Mae nifer o dempledi dadansoddi hyfforddiant ar gael ar-lein i helpu cynghorau i benderfynu ar eu ffordd eu hunain o ddadansoddi anghenion hyfforddi. Y

ffordd symlaf fyddai rhestru'r sgiliau hanfodol hynny a nodwyd uchod a'r sgiliau sydd eu hangen ar y cyngor, a gofyn i gynghorwyr a staff unigol hunanarfarnu eu lefelau cymhwystra e.e. rhwng un a phedwar (gyda phedwar yn gwbl hyfedr). Gall y cyngor ddefnyddio'r wybodaeth honno i bennu ei anghenion hyfforddi ac, yna, ei flaenoriaethau hyfforddi cyfunol.

5.9. Y cam nesaf yw penderfynu pa gamau y bydd yn eu cymryd i lenwi'r bylchau perthnasol mewn sgiliau a blaenoriaethu'n unol â hynny.

**Cytuno ar y cynllun hyfforddi a'i gyhoeddi**

5.10. Dylai'r cynllun hyfforddi adlewyrchu anghenion hyfforddi'r cyngor a'i gynllun ar gyfer diwallu'r anghenion hynny. Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y cyngor llawn cyn iddo gael ei gyhoeddi. Dylai'r cynllun o leiaf gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Y math o hyfforddiant;
- Nifer y cyfranogwyr;
- Faint o amser y disgwylir i'r cyfranogwyr ei gymryd i gwblhau'r hyfforddiant;
- Cyfanswm cost yr hyfforddiant.

5.11. Mae'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref yn cyhoeddi strategaeth ar sicrhau bod digon o hyfforddiant perthnasol ar gael i gynghorau. Mae'n nodi'r cyrsiau sydd ar gael a deunyddiau cymorth. Mae'n debygol y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r cyngor wrth iddo benderfynu ar gyfleoedd i ddiwallu anghenion hyfforddi. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae disgwyl i Strategaeth Hyfforddiant y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant yng Nghymru gael ei diweddaru.

5.12. Efallai yr hoffai cynghorau ystyried yr ystod ehangach o gyfleoedd i feithrin arbenigedd gan gynnwys hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, fel cysgodi cynghorwyr neu staff eraill, neu ddysgu ar-lein.

5.13. Y cynghorau eu hunain sy'n gyfrifol am dalu costau'r hyfforddiant, ond gall fod cynlluniau bwrsari ar gael i gynghorwyr a chlercod sy'n rhoi cymhorthdal i dalu'r costau hyn. Mae rhan o'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg cyngor effeithiol yn cynnwys sicrhau bod gan yr aelodau a'r staff ddigon o sgiliau i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Dylai cynghorau ystyried y costau hyfforddi wrth bennu eu cyllidebau.

5.14. Efallai yr hoffai cynghorau llai, yn enwedig, rannu cynlluniau hyfforddi â chynghorau cyfagos er mwyn nodi unrhyw ofynion hyfforddi cyffredin y gellid eu negodi ar gyfer grŵp mwy o faint ac a allai leihau costau'r hyfforddiant i bawb dan sylw o bosibl.

5.15. Ni ddylai'r cynllun hyfforddi cyhoeddedig enwi unigolion heb eu cydsyniad. Os nad yw hyn yn bosibl, e.e. dim ond un aelod o staff sydd, dylai'r cynllun hyfforddi ganolbwyntio ar y blaenoriaethau hyfforddi yn hytrach na phwy sy'n cael yr hyfforddiant.

**Hyfforddiant ar gyfer cyflogeion mwy nag un cyngor cymuned**

5.16. Gall un clerc gyflawni'r swyddogaeth honno ar gyfer mwy nag un cyngor cymuned. Gall staff eraill hefyd weithio i sawl cyngor cymuned. Argymhellir bod cynghorau cymuned yn mynd ati mewn ffordd bragmataidd i ddiwallu anghenion hyfforddi. Er enghraifft, gallai cynghorau gytuno â'i gilydd pa hyfforddiant y dylai'r staff hyn ei gael a sut y gallant rannu'r costau. Gallai hyn gael ei gofnodi yng nghynlluniau hyfforddi pob cyngor dan sylw, ond byddai angen sicrhau nad yw'r wybodaeth yn datgelu pwy yw unigolyn penodol.

**Adolygu cynlluniau hyfforddi**

5.17. O dan adran 67(4) o Ddeddf 2021 mae dyletswydd ar gynghorau i adolygu eu cynllun hyfforddi o bryd i'w gilydd.

5.18. Fan lleiaf, byddai hyn yn digwydd bob tro y ceir etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned. O dan adran 67(3) o Ddeddf 2021, ar ôl i'r cynllun cyntaf gael ei gyhoeddi, rhaid i gynlluniau dilynol gael eu paratoi ddim hwyrach na thri mis ar ôl pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned.

5.19. Yn ymarferol, mae'n debygol y bydd angen diwygio'r cynllun yn amlach, er enghraifft, ar ôl is-etholiad i'r cyngor neu ar ôl i gynghorydd cyfetholedig newydd ymuno; newidiadau staff; neu pan fydd y cyngor yn ymgymryd â chyfrifoldebau newydd fel gwasanaethau neu asedau newydd.

5.20. Os bydd cyngor yn diwygio ei gynllun hyfforddi neu'n llunio un newydd yn ei le, o dan adran 67(5) o Ddeddf 2021, rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r cynllun diwygiedig neu newydd.

**Cyhoeddi**

5.21. Dylai cynllun hyfforddi'r cyngor gael ei gyhoeddi yn unol â'r drefn ehangach ar gyfer cyhoeddi sy'n ofynnol gan Ddeddf 2021, a dylai gael ei gyhoeddi'n electronig.

# 6. Pennod 6: Darpariaethau eraill sy'n effeithio ar gynghorau cymuned a thref

### Hysbysiadau ynglŷn â chyfarfodydd cynghorau cymuned

6.1. Mae Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf 2021 yn diwygio paragraff 26 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 mewn perthynas â rhoi hysbysiad ynglŷn ag amser a lleoliad cyfarfod cyngor llawn. Rhaid i'r hysbysiad (gan gynnwys sut y gellir ymuno â'r cyfarfod yn rhithwir, lle bo hynny'n gymwys) gael ei gyhoeddi'n electronig ac mewn man amlwg yn y gymuned o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod neu, os caiff y cyfarfod ei gynnull gan roi llai o rybudd, ar yr adeg y caiff ei gynnull. Os hoffai aelod gael yr wys yn ysgrifenedig yn hytrach nag yn electronig, rhaid iddo hysbysu'r clerc yn ysgrifenedig a nodi'r cyfeiriad post y dylid anfon yr wys iddo.

6.2. Os caiff y cyfarfod ei gynnal o bell, rhaid i'r hysbysiad gynnwys manylion am sut i ymuno â'r cyfarfod, ac amser a lleoliad y cyfarfod. Gellir hepgor y lleoliad os mai dim ond o bell y cynhelir y cyfarfod.

6.3. Mae paragraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf 2021 yn diwygio Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 mewn perthynas â hysbysiadau ynglŷn â chyfarfodydd cynghorau cymuned. Rhaid i gopi o'r hysbysiad o'r cyfarfod gael ei gyhoeddi'n electronig o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod neu, os caiff y cyfarfod ei gynnull ar rybudd byrrach, yna ar yr adeg y caiff ei gynnull.

6.4. Mae paragraff 21 o Atodlen 4 i Ddeddf 2021 yn nodi y gellir, mewn amgylchiadau eithriadol, alw cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyngor ar lai o rybudd. Mewn achosion o'r fath, dylai hysbysiadau gael eu cyhoeddi o leiaf 24 awr o flaen llaw.

6.5. Ni ddylai'r ddarpariaeth i gynnal cyfarfodydd brys gael ei defnyddio heblaw mewn ffordd briodol ar gyfer materion y mae angen ymateb iddynt ar frys. Mae hyn yn adlewyrchu darpariaeth debyg sydd ar waith ar gyfer prif gynghorau, e.e. darparu ymateb brys i lifogydd lleol neu argyfwng iechyd y cyhoedd. Cynghorir cynghorau cymuned i baratoi rheolau sefydlog ar gyfer y broses a rhesymau dros alw cyfarfodydd brys o'r fath, gan gynnwys sicrhau cefnogaeth gan aelodau'r cyngor.

6.6. Mae'r gofynion hysbysu hyn hefyd yn gymwys pan gynhelir cyfarfod ffurfiol nad yw'n agored i'r cyhoedd.

### Trafodion cyfarfodydd cynghorau cymuned

6.7. Mae Deddf 2021 yn mewnosod gofyniad o dan adran 26ZA o Ddeddf 1972 fod yn rhaid i'r cyngor, heb fod yn hwyrach na saith diwrnod gwaith ar ôl cyfarfod o'r cyngor, gyhoeddi nodyn electronig sy'n nodi:

- Enwau'r aelodau a fynychodd y cyfarfod, ac ymddiheuriadau am absenoldeb;
- Unrhyw ddatganiadau o fuddiant;
- Unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod, gan gynnwys canlyniad unrhyw bleidleisiau.

6.8. Nid yw'r gofyniad hwn yn disodli'r gofynion a nodir yn adran 55 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd ac unrhyw wybodaeth arall a nodir yn yr adran honno, yn electronig.

6.9. Nid yw'r gofynion ynghylch cyhoeddi nodyn ar ôl cyfarfod cyngor yn gymwys i faterion preifat nac achosion lle byddai datgelu'r manylion hynny'n niweidiol i'r rhai sy'n gweithredu ar y penderfyniadau hynny.

**Deisebau cymunedol**

6.10. Roedd Deddf 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011") yn darparu y dylid cynnal pleidlais gymunedol pe bai galwad am bleidlais o'r fath mewn cyfarfod cymunedol a gynullwyd yn briodol. Nid oedd canlyniadau pleidleisiau cymunedol yn rhwymol.

6.11. Mae tystiolaeth yn dangos bod nifer y pleidleiswyr mewn pleidleisiau cymunedol, fel canran o gyfanswm y bobl sydd â'r hawl i bleidleisio, yn isel. Yn ogystal, mae pleidleisiau cymunedol yn gostus. Er mwyn cadw'r cyfle i gymunedau fynegi eu barn i'r cyngor, mae Deddf 2021 wedi diddymu pleidleisiau cymunedol gan gyflwyno system ddeisebau yn eu lle. Mae Atodlen 13 i Ddeddf 2021 yn darparu ar gyfer diddymu pleidleisiau cymunedol, ac mae adran 42 o'r Ddeddf yn cyflwyno cynllun deisebau newydd i'w lunio a'i gyhoeddi gan y prif awdurdod perthnasol.

6.12. Yr eithriad i hyn yw pleidleisiau llywodraethu cymunedol h.y. y rhai sy'n galluogi cymuned i gynnal pleidlais ar gynnig i sefydlu neu ddiddymu cyngor cymuned neu i grwpio gyda chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phleidleisiau llywodraethu cymunedol, a nodir yn Neddf 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Fesur 2011), yn aros yr un fath yn Neddf 2021.

**Etholiadau**

6.13. Mae adran 15 o Ddeddf 2021 yn newid cylch etholiadol prif gynghorau a chynghorau cymuned o bedair blynedd i bum mlynedd. System y cyntaf i'r felin yw'r system bleidleisio ar gyfer etholiadau cynghorau cymuned o hyd.

6.14. Mae adran 19 o Ddeddf 2021 yn diwygio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol er mwyn caniatáu i ddinesydd o unrhyw wlad sefyll etholiad. Mae hyn yn amodol ar y meini prawf cymhwyso eraill, fel oedran a phreswyliad. Bydd yr holl feini prawf anghymhwyso eraill yn gymwys o hyd.

6.15. Mae adran 20 o Ddeddf 2021 yn darparu y bydd gan gyflogeion cynghorau cymuned, heblaw am y rheini sy'n dal swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol, yr hawl i sefyll etholiad i'w cyngor eu hunain. Y cyfan sy'n rhaid iddynt ei wneud yw ymddiswyddo o'u swydd daledig gyda'r cyngor os cânt eu hethol. Mae hyn yn ehangu'r gronfa o ymgeiswyr posibl ac yn sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau ar ôl i'r ymgeisydd gael ei ethol.

6.16. Mae adran 21 o Ddeddf 2021 yn anghymhwyso aelod o awdurdod lleol rhag cael ei benodi neu ei ethol i'r awdurdod hwnnw i unrhyw swydd â thâl heblaw am swydd cadeirydd neu is-gadeirydd.  Yn achos cynghorau cymuned, nid oes unrhyw gyfryw swyddi â thâl. Os bydd aelod am ymgymryd â swydd â thâl yn y cyngor cymuned hwnnw, rhaid iddo ymddiswyddo. Fodd bynnag, diddymodd yr adran hon adran 116 o Ddeddf 1972 fel y mae'n gymwys yng Nghymru (a'i disodli ag adran 116A). Nid oes gofyniad mwyach i aros 12 mis cyn y gellir ymgymryd â swydd â thâl.

**Cyfarfodydd ar safleoedd trwyddedig**

6.17. Mae Atodlen 4, paragraff 20 o Ddeddf 2021 wedi diwygio Atodlen 12, paragraff 26 o Ddeddf 1972. O ganlyniad, nid oes cyfyngiad mwyach ar gynnal cyfarfodydd cynghorau cymuned a chyfarfodydd is-bwyllgorau ar safleoedd trwyddedig.